P 42
Ymchwiliad i’r Adolygiad Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Inquiry into the Priorities for the Health, Social Care and Sport Committee
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg
Response from: Welsh Language Commissioner

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddIechyd@cynulliad.cymru

01/09/2016

Annwyl Gadeirydd

**Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

Diolch am y cyfle i gynnig barn ar faterion y gallasai'r pwyllgor roi sylw iddynt wrth graffu ar y maes iechyd, gofal a chwaraeon dros gyfnod y pumed Cynulliad.

Rwy'n rhagweld y gall y Pwyllgor fod â diddordeb mewn darnau penodol iawn o waith gaiff eu cyflawni ac y cyhoeddir gwybodaeth amdanynt gennyf o dro i dro dros gyfnod y Cynulliad. Gall materion godi yn sgil gwneud gwaith ymchwil, cyhoeddi adroddiadau, gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, neu yn sgil fy swyddogaeth o roi cyngor i unrhyw berson. Byddaf hefyd yn fodlon cynghori'r Pwyllgor yn ôl yr angen ar faterion strategol sy'n ofynnol er mwyn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae hefyd yn bosibl y bydd materion o fudd cyhoeddus yn arwain at drafodaeth Pwyllgor yn sgil fy mod wedi dyfarnu ar ymchwiliad i achos neu oherwydd fy mod wedi cyhoeddi adroddiadau ar ymchwiliadau o fethiant i gydymffurfio â safonau.

Gan droi at faterion polisi penodol, cydnabyddir erbyn hyn bod cyfathrebu effeithiol yn un o elfennau hanfodol gwasanaeth iechyd a gofal o ansawdd uchel. Mae iaith yn greiddiol i gyfathrebu effeithiol. Dyna oedd un o brif ganfyddiadau'r ymholiad statudol a gynhaliais yn 2014 i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol, *Fy Iaith, Fy Iechyd*. Yn unol â fy mhwerau dan Adran 7 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynais 33 o argymhellion i Weinidogion Cymru yn sgil cynnal yr ymholiad hwnnw er mwyn gwella gwasanaethau gofal sylfaenol Cymraeg yng Nghymru. Ar sail y dystiolaeth swmpus a gasglwyd, cynigiwyd argymhellion ar gyfer gwelliant mewn meysydd megis

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- parch ar urddas y claf
- cynllunio gwasanaethau
- yr angen am gynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol
- cynllunio'r gweithlu
- addysg a hyfforddiant
- data ac ymchwil.

Cyflwynais ganfyddiadau'r ymholiad i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y pedwerydd Cynulliad mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2014. Nodaf bod gofal sylfaenol yn un o'r pynciau y mae'r pwyllgor ei hun wedi'i adnabod fel un i graffu arno yn ystod cyfnod y pumed Cynulliad. Byddai'n amserol i'r pwyllgor roi sylw i gynnydd yng ngweithrediad argymhellion *Fy Iaith, Fy Iechyd* wrth graffu ar y maes gofal sylfaenol.

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth iechyd a gofal yng Nghymru yn medru darparu yn Gymraeg i'r bobl hynny sydd ei angen, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal, *Mwy na Geiriau*. Cyhoeddwyd y strategaeth gyntaf yn 2012 ac fe'i diweddarwyd yn gynharach eleni ar gyfer y cyfnod 2016 – 2019. Bedair mlynedd ers cychwyn gweithredu'r fframwaith strategol hon, credaf y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor graffu ar lwyddiant y fframwaith i gyflawni ei hamcanion. O wneud hynny'n eithaf buan, gallasai gwaith y pwyllgor gyfrannu at lywio gweithrediad y strategaeth newydd hyd at 2019.

Hyderaf bydd yr awgrymiadau hyn o ddefnydd.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg